The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

**Twitter: @PINSgov**

Mae rhagor o wybodaeth amdanom ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:
https://llyw.cymru/yr-arolygiaeth-gynllunio

# FFURFLEN APELIO TYNNU DŴR A CHRONNI DŴR

Os oes angen i chi gael y ddogfen hon mewn print bras, ar dâp sain neu mewn Braille neu iaith arall, cysylltwch â'r Llinell Gymorth ar 0303 444 5940.

**RHYBUDD:** **Rhaid i'ch apêl gyrraedd yr Arolygiaeth Gynllunio o fewn 28 diwrnod o ddyddiad penderfyniad CNC neu o ddiwedd y cyfnod penderfynu.**

**PRINTIWCH YN GLIR MEWN PRIFLYTHRENNAU GAN DDEFNYDDIO INC DU**

## A. APELYDD – **Rhaid** i enw'r person(au) sy'n gwneud yr apêl ymddangos fel ymgeisydd ar y ffurflen gais. **Os na wneir hyn, mae'n bosibl na chaiff yr apêl ei chofrestru.**

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Enw Sefydliad (os yn berthnasol) | |

## B. ASIANT (os oes un) AR GYFER YR APÊL

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Enw Sefydliad (os yn berthnasol) | |
| Cyfeirnod | |

## C. CYFOETH NATURIOL CYMRU (CNC)

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad a manylion cyswllt rhanbarthol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost) | |
| Rhif cyfeirnod y cais | |
| Dyddiad y ffurflen gais | |
| Dyddiad hysbysiad Penderfyniad CNC (os cyhoeddwyd) | |

## D. CYFEIRIAD SAFLE'R APÊL

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad | |
| Cod post | |

| | IE | NA |
|---|---|---|
| Ai chi yw perchennog/meddiannydd y tir?<br>**Os na, rhowch esboniad isod o'ch hawl mynediad i'r man tynnu/cronni.** | | |
| | | |

| | OES | NAC OES |
|---|---|---|
| A oes unrhyw faterion iechyd a diogelwch ar y safle neu gerllaw y byddai angen i'r Arolygydd eu hystyried wrth ymweld â'r safle?<br>**Os oes, rhowch esboniad isod.** | | |
| | | |

## E. MANYLION Y CAIS

| |
|---|
| Rhowch fanylion y drwydded tynnu/cronni neu gais am ganiatâd. Fel rheol, dylid cymryd y rhain o'r ffurflen gais, ond os cafodd y cais ei ddiwygio tra'r oedd gyda CNC ar gyfer ei ystyried, gallwch nodi disgrifiad o'r drwydded ddiwygiedig. |
| |

## F. RHESWM DROS APELIO

**Mae'r apêl hon yn erbyn:** *Ticiwch un opsiwn yn unig* ☑

**Penderfyniad ar gais am drwydded**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Gwrthod trwydded tynnu dŵr a/neu gronni dŵr. | |
| 2. | Rhoi trwydded tynnu dŵr a/neu gronni dŵr yn amodol ar amodau a wrthwynebwch. | |
| 3. | Methiant CNC i roi ei benderfyniad o fewn y cyfnod priodol (sef 3 mis fel arfer, neu gyfnod estynedig y cytunwyd arno) ar gais am drwydded tynnu dŵr a/neu gronni dŵr. | |

**Penderfyniad ar gais am drwydded drosiannol**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Mae angen cais am drwydded lawn, trwydded drosglwyddo neu drwydded dros dro ar gyfer un o'r mathau eraill o drwydded. | |
| 2. | Dylid trin nifer o geisiadau am drwyddedau (o unrhyw fath neu fathau) i dynnu dŵr o ffynhonnell gyflenwi benodol fel cais am drwydded sengl o'r fath (o unrhyw fath). | |
| 3. | Dylid trin cais am drwydded sengl (o unrhyw fath) i dynnu dŵr o ffynhonnell gyflenwi benodol fel nifer o geisiadau am drwyddedau o'r fath (o unrhyw fath neu fathau). | |
| 4. | Dylai unrhyw gais o'r fath gynnwys cais i ddirymu trwydded sy'n bodoli i dynnu dŵr. | |

**Penderfyniad ar gais am ganiatâd ar gyfer prosiect perthnasol sy'n cynnwys Asesu Effeithiau Amgylcheddol**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Gwrthod cais ar gyfer prosiect perthnasol. | |
| 2. | Caniatáu cais ar gyfer prosiect perthnasol yn amodol ar amodau a wrthwynebwch. | |
| 3. | Methiant CNC i roi ei benderfyniad o fewn y cyfnod priodol (sef 3 mis fel arfer, neu gyfnod estynedig y cytunwyd arno) ar gais ar gyfer prosiect perthnasol. | |

## G. SAIL DROS APELIO

Dyma eich cyfle i gyflwyno eich achos mewn cysylltiad â'r rheswm dros apelio fel y nodir yn adran F. Rhowch eich sail dros apelio ac unrhyw ffeithiau ategol y dymunwch ddibynnu arnynt. Dylech fynd drwy'r rhesymau dros benderfyniad CNC (os rhoddwyd rhesymau) ac esbonio pam rydych yn anghytuno. Dim ond y materion ym mhenderfyniad CNC a'r materion a gyflwynwyd gennych yn ystod y cam ymgeisio y dylid eu cynnwys. Ni ddylech gyflwyno unrhyw faterion newydd nad oeddent gerbron CNC oni bai y galwch ddangos bod amgylchiadau eithriadol wedi'ch atal rhag eu codi ar y pryd.

***Parhewch ar ddalen ar wahân os oes angen***

## H. GWEITHDREFN

**Noder bod yn rhaid i ni ystyried dewis CNC hefyd wrth i ni benderfynu sut y cynhelir yr apêl.**

**Ticiwch UN blwch yn unig**

**1. Sylwadau Ysgrifenedig** **S** ☐

Mae'r weithdrefn hon yn ymwneud â chyfnewid datganiadau ysgrifenedig y partïon. Os oes angen ymweliad â'r safle, rhoddir cyfle i chi a CNC fynd gyda'r Arolygydd yn ystod yr ymweliad â'r safle.

**2. Gwrandawiad** **G** ☐

Mae gwrandawiad yn drafodaeth a gynhelir o dan gyfarwyddyd yr Arolygydd. Mae'n caniatáu i bartïon gyfnewid eu barn mewn awyrgylch llai ffurfiol nag mewn ymchwiliad cyhoeddus. Mae gwrandawiadau yn agored i'r cyhoedd a gellir clywed trydydd partïon yn ôl disgresiwn yr Arolygydd. Fel arfer, nid yw gwrandawiadau yn addas ar gyfer apeliadau:

- sy'n gymhleth neu'n ddadleuol ac sydd wedi achosi llawer o ddiddordeb lleol; neu
- lle mae angen croesholi tystion.

Noder, er y gallai fod yn well gennych gael gwrandawiad, bydd yr Arolygiaeth yn ystyried hefyd a fyddai'n well ymdrin â'ch apêl mewn ymchwiliad mwy ffurfiol neu ar sail sylwadau ysgrifenedig.

**3. Ymchwiliad** **Y** ☐

Dyma'r weithdrefn fwyaf ffurfiol. Er nad yw'n llys barn, yn aml, bydd y trafodion yn ymddangos yn eithaf tebyg gan y bydd cynrychiolaeth gyfreithiol gan y partïon yn yr apêl a bydd tystion arbenigol yn cael eu galw i roi tystiolaeth, fel arfer; mae ymchwiliadau yn agored i'r cyhoedd a gellir clywed trydydd partïon yn ôl disgresiwn yr Arolygydd. Yn gyffredinol, ymchwiliad yw'r ffordd orau o ymdrin ag achos:

- sy'n ymwneud â materion cyfreithiol cymhleth;
- sydd wedi achosi llawer o ddiddordeb lleol; neu
- lle mae angen cwestiynu tystiolaeth drwy groesholi ffurfiol.

Cynhelir ymchwiliad os byddwch chi neu CNC yn penderfynu nad ydych chi eisiau defnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig ac rydyn ni'n penderfynu nad yw gwrandawiad yn addas. Weithiau, hyd yn oed os yw'r ddau barti wedi dewis y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig neu wrandawiad anffurfiol, mae'n bosibl y byddwn ni'n penderfynu cynnal ymchwiliad. Os gwnawn hynny, byddwn yn dweud wrthych pam.

Os ydych chi eisiau i ni gynnal ymchwiliad, nodwch eich rhesymau isod:

## I. DOGFENNAU ATEGOL HANFODOL

**Rhaid i'r dogfennau a restrir isod gael eu hanfon gyda'ch ffurflen apelio. Os nad ydym yn derbyn holl ddogfennau eich apêl erbyn diwedd y cyfnod apelio o 28 diwrnod, ni fyddwn yn ymdrin â'r apêl.**

***Ticiwch y blychau i ddangos pa ddogfennau a amgeir gennych.*** ☑

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Copi o'r **cais** gwreiddiol a anfonwyd at CNC. | |
| **2** | Copi o **hysbysiad penderfyniad CNC** (os cyhoeddwyd un). | |
| **3** | Copi o lythyr cofrestru CNC ar gyfer y cais.<br>Mae angen hwn dim ond os yw CNC wedi methu â phenderfynu ar y cais o fewn y cyfnod penodedig. | |
| **4** | Rhestr (yn nodi rhifau lluniadau) a chopïau o'r holl **gynlluniau, lluniadau a dogfennau** a anfonwyd at CNC fel rhan o'r cais. Dylai'r cynlluniau a'r lluniadau ddangos yr holl derfynau a marciau lliw a roddwyd ar y rhai a anfonwyd at CNC. | |
| **5** | Unrhyw **ohebiaeth** berthnasol arall â CNC. | |
| **6** | **Copi o'r Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol a dogfennau cysylltiedig, os yn berthnasol.** | |

**Manylion Personol** (ni fydd y rhain *ar gael yn gyhoeddus)*

## 1. Manylion personol yr Apelydd

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad | |
| Cod post | |
| Rhif Ffôn yn ystod y Dydd | |
| E-bost | |

| | Cymraeg | Saesneg |
|---|---|---|
| **Dewis Iaith** | | |

| | E-bost | Post |
|---|---|---|
| **Cysylltwch â mi drwy** | | |

## 2. Manylion Personol Asiant (os oes un)

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad | |
| Cod post | |
| Rhif Ffôn yn ystod y Dydd | |
| E-bost | |

| | Cymraeg | Saesneg |
|---|---|---|
| **Dewis Iaith** | | |

| | E-bost | Post |
|---|---|---|
| **Cysylltwch â mi drwy** | | |

Mae'r data personol a roddir gennych yn y ffurflen hon yn cael eu casglu a'u prosesu yn unol â thelerau ein cofrestriad o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Mae rhagor o wybodaeth am ein Polisi Diogelu Data ar gael ar ein gwefan yn yr adran "Polisi Preifatrwydd" (http://planninginspectorate.wales.gov.uk/privacy_policy)

| **LLOFNODWCH ISOD (rhaid i ni dderbyn ffurflenni wedi'u llofnodi a'r holl ddogfennau ategol o fewn y cyfnod apelio)** |
|---|
| Rwy'n cadarnhau fy mod wedi anfon copi o'r ffurflen apelio hon at CNC (os na wnewch chi hyn, fel arfer, ni dderbynnir eich Apêl). |
| Rwy'n cadarnhau bod pob rhan wedi'i llenwi'n llawn hyd at eithaf fy ngwybodaeth. |
| Rwy'n deall y gallech ddefnyddio'r wybodaeth a roddir gennyf at ddibenion swyddogol ac y gallai manylion gan gynnwys fy enw, disgrifiad o'r safle a'm datganiad achos ymddangos ar-lein. Trwy gyflwyno'r ffurflen hon, rwy'n cytuno i'r wybodaeth a roddaf gael ei defnyddio yn y modd hwn. |

| Llofnod: | |
|---|---|

| Enw (mewn priflythrennau) | | Dyddiad | |
|---|---|---|---|

| Ar ran (os yn berthnasol) | |
|---|---|

| **ANFON** | |
|---|---|
| **1 COPI atom ni yn:**<br><br>Yr Arolygiaeth Gynllunio<br>Adeilad y Goron<br>Parc Cathays<br>CAERDYDD<br>CF10 3NQ<br><br>E-bost:<br>wales@planninginspectorate.gov.uk<br><br>Llinell Gymorth: 0303 444 5940 | **1 COPI at CNC**<br><br>Anfonwch gopi o'r ffurflen apelio a datganiad achos llawn at y cyfeiriad yr anfonwyd yr hysbysiad penderfyniad ohono (neu'r cyfeiriad a ddangosir ar unrhyw lythyrau a dderbyniwyd oddi wrth CNC).<br><br>Nid oes angen anfon yr holl ddogfennau ategol atynt eto; anfonwch yn unig unrhyw ddogfennau ategol na chawsant eu hanfon yn flaenorol fel rhan o'r cais. |
| **Cadwch gopi ar gyfer eich cofnodion** | |

**Pan fyddwn yn derbyn eich ffurflen apelio, byddwn yn ysgrifennu atoch gan roi gwybod i chi a yw eich apêl yn ddilys, pwy sy'n ymdrin â hi a beth fydd yn digwydd nesaf.**

© Hawlfraint y Goron 2019

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn gael eu hanfon atom yn y cyfeiriad uchod neu drwy neges e-bost at: wales@planninginspectorate.gov.uk.